**UHY Hacker Young**
Cyfrifyddion Siartredig

# Cyngor Cymuned Llansannan

## Archwiliad o Gyfrifon 2011-12

## Adroddiad Uniongyrchol er Lles y Cyhoedd

Cofrestrwyd gan y Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yn Lloegr a Chymru i ymgymryd â gwaith archwilio ac Awdurdodwyd a Rheolwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ar gyfer busnes buddsoddi.

JG Ierston FCA ATII. NS Jenkins FCA. Ymgynghorydd: BS Jenkins FCA

Aelod o Grŵp UHY Hacker Young o bartneriaethau annibynnol y DU.
Aelod o UHY, cymdeithas ryngwladol o ffyrmiau annibynnol cyfrifo ac ymgynghori.

Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad uniongyrchol a gyhoeddir er lles y cyhoedd o dan adran 22 Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf).

Rwyf wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant y Cyngor i weithredu ei gyfrifoldebau i roi'r hysbysiad sy'n ofynnol yn statudol am hawliau pobl sydd â diddordeb i archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau sydd i gael eu harchwilio ac o hawliau etholwyr lleol i ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau mewn archwiliad. I gadw'r testun yn fyr, cyfeiriaf at bobl sydd â diddordeb ac etholwyr lleol fel y "cyhoedd" a'u hawliau fel "hawliau'r cyhoedd". Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad yma mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor, ac ymateb iddo, yn unol ag adrannau 24 a 25 y Ddeddf.

## Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer hawliau'r cyhoedd i archwilio cyfrifon y Cyngor a'u gwrthwynebu

Mae Adrannau 30 a 31 y Ddeddf yn darparu ar gyfer hawliau'r cyhoedd i archwilio'r cyfrifon sydd i gael eu harchwilio, i holi'r archwilydd am y cyfrifon ac i gyflwyno gwrthwynebiadau gerbron yr archwilydd am unrhyw fater yn ymwneud â'r cyfrifon ac mewn perthynas â hynny mae gan yr archwilydd y p er i:

- wneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; neu
- adrodd er lles y cyhoedd o dan adran 22 y Ddeddf.

Mae Rheoliad 12 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y maent wedi'u diwygio) (y Rheoliadau) yn gofyn bod yr archwilydd a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn:

- penodi dyddiad pan fo modd, neu y mae modd ar ôl y dyddiad hwnnw, arfer hawliau'r cyhoedd o dan adrannau 30 a 31; a
- hysbysu'r Cyngor am y dyddiad hwnnw.

Mae Rheoliad 15 y Rheoliadau'n gofyn bod y Cyngor yn rhoi hysbysiad i'r cyhoedd sy'n nodi:

- manylion y dull y dylid ei ddefnyddio i roi rhybudd am fwriad i archwilio'r cyfrifon a dogfennau eraill;
- enw a chyfeiriad yr archwilydd;
- y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn adran 30 ac adran 31 y Ddeddf; a'r
- dyddiad a benodwyd o dan Reoliad 12.

Mae'r Rheoliadau'n gofyn bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio am gyfnod o 20 diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae'r archwilydd yn ei bennu ar gyfer arfer hawliau'r cyhoedd. Dylid arddangos yr hysbysiad mewn lle amlwg neu fannau amlwg yn ardal y Cyngor o leiaf 14 diwrnod cyn cyfnod yr archwiliad.

## Ni lwyddodd y Cyngor i wneud trefniadau priodol ar gyfer archwiliad cyhoeddus o gyfrifon 2011-12 ac oherwydd hynny mae wedi troseddu yn erbyn hawliau'r cyhoedd fel y maent wedi'u nodi yn y Ddeddf

I arfer hawliau'r cyhoedd o dan adrannau 30 a 31 y Ddeddf, o dan Reoliad 12 y Rheoliadau, dewisais 31ain Mai 2012 fel y dyddiad pan ellid arfer yr hawliau hynny, neu y gellid arfer yr hawliau ar ôl y dyddiad hwnnw, a rhoddais hysbysiad i'r Cyngor. Wedi hynny, daethpwyd i fy sylw y ffaith fod y Cyngor wedi:

- darparu am gyfnod archwilio o naw diwrnod gwaith yn unig; a
- dim ond wedi arddangos yr hysbysiad gofynnol ar Fai 30ain 2012.

I ganiatáu cyfnod priodol i'r cyhoedd arfer eu hawliau o dan y Ddeddf, penodais ddyddiad newydd, sef 17eg Gorffennaf 2012 i arfer hawliau'r cyhoedd. Cyhoeddais hysbysiad am archwiliad diwygiedig i'r Cyngor a rhoddais wybod i'r Cyngor am ofynion archwiliad cyhoeddus o'r Ddeddf a'r Rheoliadau.

Er bod y Cyngor wedi hysbysebu'n gywir y dyddiad diwygiedig ar gyfer arfer hawliau cyhoeddus, canfu fy archwiliadau nad oedd y Cyngor wedi sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol ar gael i'w harchwilio yn ystod y cyfnod priodol cyn 17eg Gorffennaf 2012. Roedd hyn yn torri'r hawliau a roddwyd i'r cyhoedd gan y Ddeddf.

## Y camau nesaf

Mae adrannau 24 a 25 Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gofyn bod y Cyngor yn ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad. Yn y cyfarfod, mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- A yw'r adroddiad yn gofyn ei fod yn gweithredu;
- Pa weithred (os oes un o gwbl) i'w wneud mewn ymateb i'r adroddiad.

Mae'r materion sydd wedi'u cynnwys yn fy adroddiad yn faterion sy'n ymwneud â methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol. Rwyf felly'n nodi'r camau y mae angen i'r Cyngor eu cymryd i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol.

Gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod lle ystyrir yr adroddiad hwn, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn fy hysbysu am y penderfyniadau a wnaed gan y corff, yn sicrhau fy mod yn cymeradwyo crynodeb ysgrifenedig o'r penderfyniadau hynny ac yn sicrhau bod hysbysiad yn cynnwys y crynodeb cymeradwy wedi'i gyhoeddi yn unol ag adran 26 y Ddeddf.

Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion adran 27 y Ddeddf ac yn cyhoeddi hysbysiad mewn un neu fwy o'r papurau newydd a ddosberthir yn ardal Cyngor Cymuned Llansannan ac yn darparu copi o'r hysbysiad i bob aelod o'r Cyngor.

Er mwyn i'r cyhoedd arfer eu hawliau o dan y Ddeddf i archwilio cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2011-12 rwyf wedi penodi dyddiad newydd unwaith eto, sef 30 Tachwedd 2012, fel y dyddiad pan fydd modd i'r cyhoedd arfer eu hawliau o dan y Ddeddf.

UHY Hacker Young
Cyfrifyddion Siartredig

Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer hysbysebu'r archwiliad a gadael i'r cyhoedd archwilio dogfennau a'i fod yn darparu i'w harchwilio y cyfrifon sydd i gael eu harchwilio a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebion sy'n ymwneud â hwy.

Pan gwblheir y gweithredoedd sydd wedi'u nodi uchod, ac yn amodol ar unrhyw faterion sy'n codi o archwiliad y cyhoedd o gyfrifon 2011-12 y Cyngor, byddaf yn cwblhau fy ngwaith ac yn ardystio cwblhad yr archwiliad. Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd ddod ataf cyn i mi ardystio cwblhad yr archwiliad i godi materion y dylwn wybod amdanynt yn eu barn hwy.

O ganlyniad i'r gwaith ychwanegol rwyf wedi gorfod ei gwblhau er mwyn archwilio'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ac i gynhyrchu a chyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor, byddaf yn cyhoeddi anfoneb ychwanegol i'r Cyngor i dalu cost y gwaith hwnnw, sef £200 ar hyn o bryd. Bydd swm terfynol yr anfoneb honno'n dibynnu ar faint o waith pellach y mae gofyn i mi ei wneud ar ôl cyhoeddi'r adroddiad yma a hyd y pwynt pan fyddaf yn ardystio cwblhad yr archwiliad.

N S Jenkins
Partner, UHY Hacker Young
Archwilwyr Penodedig
10 Hydref 2012

St John's Chambers
Love Street
Chester
CH1 1QN

Cofrestrwyd gan y Sefydliad Cyfrifyddion Siartredig yn Lloegr a Chymru i ymgymryd â gwaith archwilio ac Awdurdodwyd a Rheolwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ar gyfer busnes buddsoddi.

JG Ierston FCA ATII. NS Jenkins FCA. Ymgynghorydd: BS Jenkins FCA

Aelod o Grŵp UHY Hacker Young o bartneriaethau annibynnol y DU.
Aelod o UHY, cymdeithas ryngwladol o ffyrmiau annibynnol cyfrifo ac ymgynghori.